Hanes v Neuadd Goffa

Rhwng tua 1890 a 1920 roedd plant Y Felinheli yn elwa yn fawr o gael eu dysgu oddiallan i oriau'r ysgol mewn pethau fel canu, adrodd, chwarae gwahanol offer cerddorol a.y.y.b. gan oedolion deallus a dawnus. Roedd corau yn cael eu cychwyn yn y capeli a'r eglwysi ond rhaid oedd defnyddio adeiladau'r gwahanol fudiadau i ymarfer a pherfformio.

Prynwyd ' neuadd ' o fath wedi ei hadeiladu o goed a sinc am £100 yn syth wedi diwedd y Rhyfel Byd laf a defnyddiwyd hon fel neuadd y pentref i gynnal aml weithgaredd. Nid oedd cyflwr yr adeilad yn rhy iach ac nid oedd ei faint yn fawr chwaith, felly roedd gwir angen neuadd bwrpasol newydd.

Eto, wedi diwedd y Rhyfel Byd laf, bu llawer o drafodaeth ymysg y pentrefwyr am beth a fuasai'n fwyaf teilwng fel cofeb i'r rhai a gollasant eu bywydau yn y rhyfel. Credai rhai mai cloc fuasai'n fwyaf priodol tra roedd eraill yn credu mewn neuadd gyda ystafell arbennig ynddi. Rhannwyd y pentref yn ddau drwy hyn. Roedd y ddau syniad a'u pwyntiau da - gall y cloc yn y stryd fawr gael ei weld gan bawb bob diwrnod tra roedd gwir angen am neuadd a fuasai yn fwy o fudd i'r pentref yn gyffredinol.

Oherwydd y toriad yma aeth wyth mlynedd heibio wedi diwedd y rhyfel cyn penderfynu adeiladu cloc. Cariodd y garfan arall ymlaen gyda'i cynlluniau i godi neuadd.

Cynhaliwyd beth a alwyd yn 'Grand Bazaar' ym Mharc Y Faenol ar yr ail a'r drydedd o Fedi,1925 i godi arian at gronfa'r cloc - fe'i gelwid yn rhaglen y 'Bazaar' fel y 'Port Dinorwic and District War Memorial'. Erbyn hyn roedd safle wrth droed yr allt i'r orsaf drennau wedi ei roi gan Stad Y Faenol a Chyfarwyddwyr cwmni'r London Midland and Scottish Railway Company - neu'r LMS fel yr adnabyddwyd.

Cafwyd tir i adeiladu'r neuadd yn 1924 a dechreuwyd ar y gwaith adeiladu ymysg croeso mawr gan y pentrefwyr.Yn ystod yr adeiladu, ac yng nghanol storm o wynt cryf a glaw, fe chwythwyd un wal o'r neuadd i lawr.

Gosodwyd y garreg sylfaen yn ei lle gan Syr Michael Duff fel rhan o wasanaeth arbennig ar Ddydd Sadwrn, Hydref 31,1925. Galwyd y neuadd yn 'Public Memorial Hall Port Dinorwic'.

Penderfynwyd ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 17,1926 fel y diwrnod agor swyddogol ond gan fod priodas chwaer Syr Michael Duff yr un diwrnod gohiriwyd y seremoni i'r diwrnod canlynol, dydd Sul Gorffennaf 18,1926.

Gyda agor y neuadd daeth yn bosib cynnal eisteddfodau, cyngerddau, dramau, dawnsiau, clybiau ieuenctid, cystadlaethau paffio, 'whist drives', badminton a.y.y.b.

Cyn gorffen credaf y dylid dweud gair neu ddau yn gyntaf am Mr. H.O.Roberts, gwr o'r Felinheli a aeth i fyw i America rai blynyddoedd cyn hyn. Roedd ganddo ddarn o dir ble mae'r neuadd yn awr a rhoddodd hwn fel rhodd i'r pentref. Rhoddwyd y llechi i gyd yn rhad ac am ddim gan Syr Michael Duff. Gair arbennig am yr olaf, sef Mrs.

Mary Thompson a ddaeth o Loegr, gyda'i gwr, i fyw i 7 Rhes Terfyn. Darllenodd rhan o'i ewyllys yn 1901 fel a ganlyn.....'To the Parish Council of Llanfairisgaer two thousand pounds for the purpose of supplying Port Dinorwic only with water or of making and constructing waterworks in connection therewith provided the same be completed within two years from my death..... To the same Parish Council one thousand pounds towards the costs and expenses of erecting and completing a Public Hall at Port Dinorwic within which Hall a Room is to be set apart for and used as a free Library Room with a suitable inscription placed on some part thereof to commemorate the happy days I have spent at Port Dinorwic and also the many kind friends I have met and associated with there.....'